

## PWYLLGOR IAITH DYDD IAU, 7 EBRILL 2022

**YN BRESENNOL:** Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)  
Judith Mary Humphreys (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Elin Walker Jones, Olaf Cai Larsen, John Pughe Roberts ac Elfed Williams.

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Llio Mai Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Bet Huws (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd – Meirionnydd), Mei Owen (Swyddog Canolfan Datblygu Iaith) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**ERAILL A WAHODDWDYD:** Y Cyngorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Eitem 5: Dafydd Gibbard (Y Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol).

Eitem 6: Huw Williams (Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd)

Eitem 7: Sioned E. Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cynghorwyr Beca Brown, Eric M. Jones, Eirwyn Williams ac Elwyn Jones (Is-gadeirydd y Cyngor)

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 25 Ionawr 2022 fel rhai cywir.

Gofynnwyd am ddiweddariad ynglŷn â faint o dai sydd bellach wedi eu prynu oddi ar y farchnad agored gan yr Adran Dai. Nodwyd fod y cofnodion yn cyfeirio at un tŷ wedi ei brynu hyd at fis Ionawr 2022; holiwyd ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf. Bydd yr Ymgynghorydd Iaith yn gwirio'r nifer.

## 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: TÎM ARWEINYDDIAETH A GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddodd y Prif Weithredwr ar y datblygiad diweddar yn sgil newid defnydd o feddalwedd Microsoft y Cyngor fel ei fod ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod 60% o staff yn ei ddefnyddio yn wirfoddol; bydd hyn yn newid i fod yn fandadol o ddyddiad cychwyn y Cyngor newydd.
- Nodwyd bod y Cyngor yn arwain mewn amryw o bartneriaethau rhanbarthol megis GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru a Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gyda chyfrifoldeb dros sefydlu, trefnu a chynllunio'r cyfarfodydd. Ychwanegwyd fod y Cyngor yn gwirfoddoli i arwain ar yr uchod am ei fod yn gyfle i ddylanwadu ar ddefnydd iaith y cyrff drwy sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu drwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf a'n gweithredu polisi iaith y Cyngor.
- Soniwyd am y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sydd yn cael ei fynychu gan y Prif Weithredwr ac yn gyfle i ddylanwadu ar ddefnydd sefydliadau cyhoeddus eraill o'r Gymraeg.
- Mynegwyd siom yn rhai sefydliadau ble roedd rhaid brwydro i gael cyfrannu yn y Gymraeg mewn rhai cyfarfodydd. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru yn un sefydliad ble roedd ychydig iawn o ymdrech yn cael ei wneud i ddarparu cyfieithydd. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor ohebu yn gyhoeddus efo'r Llywodraeth i fynegi siom.
- Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y prif feysydd yr arweiniai arnynt a nododd enghreifftiau o geisio dylanwadu ar ddefnydd yr iaith yn y meysydd hynny. Enghreifftiau o hyn oedd wastad holi am gopiau Cymraeg o adroddiadau ym mhob cyfarfod a gwneud yn siŵr fod darpariaeth cyfieithu ar gael yn enwedig mewn cyfarfodydd ar lein.
- Credwyd fod yr enghreifftiau uchod yn ysgogi eraill i ofyn yr un cwestiynau a bod gwelliant i'w weld o gymharu â'r sefyllfa ddeg mlynedd yn ôl.
- Cyfeiriwyd at yr Agenda Mwy na Geiriau, gwaith partneriaethau a chydweithio o fewn y meysydd gofal a diogelwch cymunedol a rôl y Cyfarwyddwr o fewn Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fel cyswllt swyddogol. Manylwyd am y Fforwm Mwy na Geiriau gan nodi fod cymeradwyaeth cenedlaethol wedi ei dderbyn am waith y fforwm yn y Gogledd sydd yn rhannu ymarfer da a chydweithio.
- Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod hi'n cyfrannu yn y Gymraeg ym mhob Cyfarfod o'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ynghyd â nifer o aelodau eraill a bod hynny yn cael ei annog a'i werthfawrogi gan Gadeirydd a Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd.
- Soniwyd am lansiad Maethu Cymru a'r gwaith ar y cyd i ddylanwadu a llwyddo i gael y logo yn Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg yn ail.
- Adroddodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol ar y Gwasanaeth Cyfreithiol gan nodi ei fod yn wasanaeth bach o ran maint ond yn gorgyffwrdd ag Adrannau eraill drwy ddarparu cefnogaeth gyfreithiol a phriodoldeb. Soniwyd am y gefnogaeth sydd yn cael ei ddarparu i'r Crwner o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol yn ogystal

â'r uned etholiadol.

- Amlygwyd fod y Cyngor yn arwain ar faterion rhanbarthol gan nodi fod y gwasanaeth cyfreithiol wedi bod yn cyfrannu o ran llywodraethant y materion yma. Golyga hyn fod y gwasanaeth yn galluogi i roi rôl flaenllaw i'r Gymraeg wrth sefydlu'r partneriaethau rhanbarthol a chreu hyder bod cytundebau cyfreithiol technegol yn gallu cael eu cynhyrchu yn Gymraeg. Ychwanegwyd bod yr un statws bellach yn cael ei roi i ddogfennau cyfreithiol Cymraeg a Saesneg a'i bod bellach yn anghyffredin peidio derbyn fersiynau dwyieithog o ddogfennau, sy'n ddatblygiad calonogol iawn.
- Manylwyd ar y gwasanaeth Crwner a'r ansicrwydd diweddar ynghylch uno'r gwasanaeth i fod yn wasanaeth Gogledd Cymru. Adroddwyd y bydd y gwasanaeth yn parhau fel gwasanaeth Gogledd Orllewin Cymru rhwng Gwynedd a Môn ble bydd yn haws sicrhau gweithrediad Cymreig y gwasanaeth.
- Cyfeiriwyd at ddefnydd y gwasanaeth cyfreithiol o gomisiynu gwaith allanol gan adrodd bod hyn weithiau yn anorfod. Soniwyd am yr heriau o ddarganfod locums Cymraeg gan bwysleisio mai'r nod yw penodi Cyfreithwyr Cymraeg. Adroddwyd bellach bod pecynnau gwell yn cael eu cynnig ar gyfer recriwtio gan obeithio gallu denu mwy o siaradwyr Cymraeg i'r swyddi.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor i holi cwestiynau:

- Mynegwyd balchder yn yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud i arwain y ffordd i eraill ac i greu gweithlu dwyieithog a diolchwyd am y gwaith hwn.
- Cefnogwyd y syniad o ohebu'n ffurfiol efo'r cyrff cyhoeddus, yn enwedig Llywodraeth Cymru ac o bosib y Bwrdd Iechyd i fynegi siom yn eu hymdrechion i alluogi swyddogion i gyfrannu yn rhwydd yn y Gymraeg mewn cyfarfodydd. Cefnogwyd yr uchod yn unfrydol gan yr Aelodau.
- Credwyd fod y Cyngor yn chwarae rôl arweiniol a phwysig o ran sicrhau parch i'r Gymraeg mewn fforymau rhanbarthol a chenedlaethol a diolchwyd am y gwaith yma. Ychwanegwyd ei fod yn galonogol iawn fod y Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb hwn.
- Teimlwyd fod nifer o'r sefydliadau cyhoeddus yn awyddus i greu newid a gwella ond ddim yn siŵr sut i ddatblygu deunydd iaith dwyieithog yn y gweithlu. Cwestiynwyd os ydi hi'n bosib i Gyngor Gwynedd roi cynllun gwaith iddyn nhw er mwyn eu cynorthwyo.
- Cytunwyd y dylid tynnu'r gair 'Council' o enw'r Cyngor.
- Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol am ei holl waith, gwaith ychwanegol i'w gwaith dydd i ddydd. Adroddodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol ei bod wedi derbyn adborth fod yr arweiniad hwn gan y Cyfarwyddwr yng nghydestun yr iaith Gymraeg yn rhoi hyder i eraill ac yn eu hysgogi i ddefnyddio'r iaith.
- Holiwyd y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol os oedd cyfathrebu yn digwydd efo Ysgolion y Gyfraith mewn Prifysgolion fel Caerdydd neu Lerpwl er mwyn helpu efo recriwtio Cyfreithwyr i'r Cyngor.
- Holiwyd pe bai anghydfod rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg o ddogfen Gyfreithiol pa fersiwn fyddai yn cymryd blaenoriaeth.
- Gofynnwyd pam bod cyfeiriadau Saesneg ar y rhestr etholwyr ac os oes modd

derbyn y bas-data yn Gymraeg. Mynegwyd bod materion tebyg yn wir am Adran Gynllunio.

- Canmolwyd y gwasanaeth Cyfreithiol am eu datblygiadau yng nghyd-destun yr iaith o ddatblygu termau newydd cyfreithiol yn y Gymraeg. Cydnabyddwyd ei bod yn anodd denu cyfreithwyr Cymraeg; holiwyd os oedd cefnogaeth yn cael ei roi i'r locums i ddysgu neu ddatblygu yn y Gymraeg.

Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr:

- Mai Gwynedd sydd yn arwain ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn y sector gyhoeddus ers degawdau a bod asiantaethau, Cynghorau a chyrff eraill wastad yn edrych ar beth mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud. Croesawyd y cyfrifoldeb hwn a nodwyd ei bod yn hanfodol bod y gwaith da yn parhau.
- Gwnaethpwyd sylw fod y gwasanaeth cyfieithu gorau yn y wlad yng nghyngor Gwynedd.
- Soniwyd am y gwaith sy'n cael ei wneud i newid enw'r Cyngor a bod nifer o rwystrau cyfreithiol biwrocraidd wedi codi dros y blynyddoedd. Adroddwyd, efo cymorth y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, bod cyfreithiwr allanol wedi ei gomisiynu i helpu a bellach mae'r Prif Weithredwr yn ffyddiog y gellir gwneud newid arwyddocaol.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu:

- Ei bod yn bosib i Gyngor Gwynedd rannu enghreifftiau o ymarfer da efo'r sefydliadau cyhoeddus er mwyn eu cynorthwyo. Ychwanegwyd bod y Llywodraeth wedi sefydlu uned newydd dan arweiniad Jeremy Evans er mwyn rhoi sylw penodol i'r Gymraeg. Awgrymwyd y byddai'n syniad anfon y llythyr y cyfeiriwyd ato yn flaenorol at sylw'r Gweinidog ac at sylw Jeremy Evans.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol:

- Ei fod yn dueddol o chwilio am bobl profiadol i'w recriwtio fel Cyfreithwyr yn y Cyngor yn hytrach nag ymgeiswyr sydd newydd raddio, oni bai am y cyfleoedd hyfforddeion proffesiynol.
- Bod deddfwriaeth ddwyieithog yng Nghymru, golyga hyn nad oes statws penodol i'r naill iaith na'r llall. Nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod y cyfieithiad yn gywir ond bod y dehongliad yn cael ei wneud drwy gymharu â chyfeirio at y ddwy iaith; cadarnhawyd bod y ddau fersiwn efo statws.
- Y byddai'r uned etholiadol yn edrych ar y mater o gyfeiriadau Saesneg ar y rhestr etholwyr gan weld beth sy'n bosib.
- Ei bod yn her i'r locums di-Gymraeg weithio i'r Cyngor ond eu bod nhw efo agwedd gadarnhaol a parod i gydweithio. Cyfeiriwyd at achosion ble mae'r gwaith papur yn Gymraeg a bod cefnogaeth a mentora yn cael ei ddarparu i'r locums. Adroddwyd fod y berthynas yn adeiladol a chynhyrchiol a bod dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r iaith. Nodwyd er nad yw'r locums yn dysgu'r Gymraeg eu bod yn sicr yn ymgyswrtu ag egwyddor Cyngor Gwynedd.

#### **PENDERFYNIAD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
- **Cytunwyd i'r Prif Weithredwr anfon llythyr at y Llywodraeth ar ran y Pwyllgor Iaith yn mynegi siom nad oes modd i swyddogion Cyngor Gwynedd ac eraill gyfrannu yn rhwydd drwy'r Gymraeg mewn cyfarfodydd**

**a drefnir gan Lywodraeth Cymru bob amser a'u hannog i sicrhau bod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn ddiodyn mewn cyfarfodydd.**

**6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd gan nodi fod yr Adran yn delio o fewn y byd peirianyddol sydd yn cael ei ystyried yn ddiwydiant eithaf Seisnigaidd. Arweinia hyn at broblemau recriwtio staff â sgiliau ieithyddol o safon uchel. Adroddwyd bod yr Adran yn gweithio ar nifer o brosiectau a chynlluniau i helpu staff i gyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi ac i wella sgiliau ieithyddol eu gweithlu; ceir manylion am y prosiectau hyn yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at y pwyntiau canlynol yn yr adroddiad:

- Diolchwyd i'r Swyddogion Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg am eu gwaith yn cefnogi staff yr Adran i asesu gallu ieithyddol eu hunain ac i ddarparu hyfforddiant pellach pe bai angen.
- Soniwyd am unigolion o fewn yr Adran sydd wedi gwneud cynnydd ac yn cael eu hannog i siarad Cymraeg o ganlyniad i gynlluniau fel y Cynllun Cyfeillion neu'r Cynllun Arfer drwy'r Brifysgol.
- Nodwyd bod yr Adran yn annog timau i gynnal sgysiau drwy'r Gymraeg. Cydnabyddwyd bod y cyfnod clo wedi amharu rhywfaint ar y cynnydd hyn a bwriedir ail afael yn y gefnogaeth i'r timau i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith dydd i ddydd y gweithlu.
- Pwysleisiwyd y bydd yr Adran yn ceisio ymestyn eu defnydd o'r iaith Gymraeg yn fewnol a gyda chyrrff eraill fel contractwyr ac ymgynghorwyr ymhellach drwy ohebu'n Gymraeg; credwyd fod hyn yn dangos effaith ac yn cael dylanwad.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Diolchwyd am y cyflwyniad ac am holl waith yr Adran. Nodwyd bod llwyddiant y Cynllun Adfer drwy'r Brifysgol yn ddiddorol iawn a holwyd os yw Cynghorau a Sefydliadau eraill yn ymwybodol ohono ac os oedd modd ei farchnata.
- Gofynnwyd os yw'r cyrsiau i staff dderbyn cymwysterau proffesiynol peirianwyr yn cael eu cynnig yn Gymraeg, ac os ddim, os oes lle i ofyn am gymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i wneud yn siŵr fod y cyrsiau yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Cwestiynwyd beth mae'r sefydliadau Addysg yn ei wneud i helpu'r Adran sydd yn ceisio darparu gweithlu Gymraeg gyda'r cymwysterau perthnasol.
- Mynegwyd sylw am eirfa dechnegol sy'n perthyn i'r maes ac awgrymwyd ei bod yn bosib parhau i gynnal sgysiau yn y gwaith yn Gymraeg er fod y termau yn Saesneg. Credwyd ei bod yn bwysig trafod y gwaith yn Gymraeg tra'n parhau i ddefnyddio'r eirfa dechnegol Saesneg i godi hyder staff.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd:

- Mynegwyd nad oedd gwaith yn cael ei wneud gan yr Adran i hyrwyddo'r Cynllun Adfer ond yn hytrach adrodd yn ôl rhwng y Cyngor a'r Brifysgol. Ychwanegodd yr Ymgynghorydd iaith fod y gwasanaeth iaith yn ran o'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y prosiect hwn. Nodwyd ei fod yn brosiect ymchwil gan y Brifysgol gyda'r Brifysgol yn arwain arno gyda nifer o gyrrff cyhoeddus eraill wedi cymryd rhan yn y gwaith

ymchwil. Credwyd bod y cyfrifoldeb yn disgyn ar y Brifysgol i rannu yr ymarfer da a hyrwyddo llwyddiant y Cynllun. Adroddwyd bod trywydd y gwaith wedi cymryd cyfeiriad gwahanol o ganlyniad i'r pandemig ac nad oedd diweddariad diweddar wedi ei dderbyn. Ategwyd y gall y gwasanaeth iaith ofyn am ddiweddariad gan y Brifysgol a holi beth yw'r cynlluniau i ehangu'r cynllun ar gyfer y dyfodol. Ychwanegwyd fod yr adborth gafodd ei dderbyn gan y Brifysgol wedi bod yn bositif iawn.

- Adroddwyd bod cynnydd i'w weld ble mae rhagor o gyrsiau yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd hefyd bod staff yr Adran yn fwy parod i ofyn am gyrsiau drwy'r Gymraeg. Y tueddiad yw bod cyrsiau gradd fel arfer yn Saesneg a cyrsiau BTEC weithiau yn cael eu cynnig yn Gymraeg. Credwyd bod cyfle i roi perswâd cryfach ar y byd Addysgiadol a perswâd politicaidd ar y Coleg Gymraeg Cenedlaethol.
- Cytunwyd â'r sylw ynglŷn a'r eirfa dechnegol sy'n perthyn i'r byd peirianyddol. Nodwyd bod enghreifftiau o lwyddiannau i'w gweld, adroddwyd bod 'chylchfan' yn cael ei ddefnyddio heddiw ond deg mlynedd yn ôl 'roundabout' oedd yn cael ei ddefnyddio rhan amlaf. Credwyd fod pethau bychain fel hyn yn gwneud gwahaniaeth ac yn ehangu geirfa y staff.

## **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## **7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ECONOMI A CHYMUNED**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Economi a Chymuned a cyfeiriodd yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Nodwyd bod lleihad bychan iawn i'w weld yn nifer y staff sydd wedi cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Credwyd bod hyn yn adlewyrchiad o'r cynnydd yn y nifer o staff dros dro a benodwyd yn ystod y flwyddyn diweddar e.e. wardeiniaid ychwanegol er mwyn ymateb i'r sefyllfa cofid.
- Adroddwyd bod cyfleoedd wedi codi i ddatblygu iaith y sawl sydd ddim yn cwrdd â'r gofynion. Nodwyd bod unigolion wedi manteisio ar y cyfleoedd ac wedi gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r anogaeth i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol. Ychwanegwyd bod heriau yn bodoli wrth gwblhau hunan asesiad iaith oherwydd bod nifer o staff tymhorol dros dro o fewn yr Adran a rhai bellach wedi gadael.
- Amlygwyd rhai meysydd gwasanaethau newydd gafodd eu cyflwyno yn ystod y cyfnod cofid. Yma cymerwyd y cyfle i roi pwyslais ar ddarparu gwybodaeth drwy'r Gymraeg a hyrwyddo gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.
- Adroddwyd bod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac Archifdai yn adnoddau gwerthfawr i deuluoedd sy'n galluogi plant i glywed y Gymraeg ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mynegwyd pwysigrwydd y gwasanaeth Archifau sy'n paratoi pecynnau gwybodaeth a deunyddiau Cymraeg i Ysgolion Gwynedd, bellach roedd mwy o bwyslais ar yr adnodd yma.
- Cyfeiriwyd at y gwaith hyrwyddo'r diwylliant Cymreig sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau. Soniwyd am y gwaith ar effaith cynnydd ymwelwyr y Sir ar yr iaith sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Nodwyd bod mesuryddion bellach yn eu lle i fesur yr effaith ar iaith y Sir.

- Mynegwyd disgwyliad yr Adran i bartneriaethau sy'n cydweithio â nhw i ddarparu deunydd yn ddwyieithog. Ychwanegwyd fod yr Adran yn sicrhau bod gwefannau ac apiau ar gael yn ddwyieithog yn ogystal â sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg i Siroedd a phartneriaethau eraill. Adroddwyd bod yr Adran wedi cryfhau'r gofynion iaith fel amod mewn tendrau wrth rannu cytundebau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Diolchwyd am yr adroddiad llawn a mynegwyd y byddai'n ddiddorol gweld beth fydd canlyniad y gwaith ar effaith ymwelwyr ar yr iaith gan gydnabod maint y dasg.
- Holwyd pryd fydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi.
- Gwnaethpwyd sylw bod lleoliad yn chwarae rhan ar ba mor niweidiol gall twristiaeth fod ar iaith mewn ardal benodol. Croesawyd y gwaith hwn a chredwyd y bydd y canlyniadau yn ddiddorol.
- Gofynnwyd a yw'n bosib mesur faint o dwristiaeth mae hanes, iaith a diwylliant Cymru yn llwyddo i'w ddenu i Wynedd ac i Gymru sef twristiaeth fwy diwylliannol.
- Mynegwyd siom fod y Cyngor Celfyddydau ddim yn cefnogi prosiectau sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Economi a Chymuned:

- Bod llawer o ffactorau yn cyfrannu at effaith ymwelwyr ar yr iaith ac nad yw'n hawdd dadansoddi'r effaith. Adroddwyd bod y gwaith hwn bellach wedi ei gomisiynu. Credwyd y bydd y canlyniad yn hynod o ddiddorol a byddai'r Adran yn hapus i rannu'r wybodaeth efo'r Pwyllgor yn y cylch nesaf.
- Nodwyd bod gwaith ar y Cynllun Economi Ymweld wedi ei baratoi ac wedi derbyn cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cyfnod ymgynghori. Gobeithiwyd y bydd y gwaith ymgynghori yn dod i ben ym mis Mehefin. Rhagwelir ar ôl yr haf bydd y Cynllun Economi Ymweld yn cael ei gymeradwyo. Nodwyd bod y gwaith ar adnabod mesuryddion yn digwydd ar hyn o bryd a bydd gan yr Adran well syniad o'r dangosyddion erbyn yr haf.
- Cytunwyd ar y sylw bod lleoliad yn ffactor ar effaith twristiaeth ar iaith ardal benodol. Amlygwyd pe bai llawer o dai Air B&B mewn pentrefi yna gall hyn gael effaith negyddol ar iaith o gymharu ag effaith ymwelwyr ar drefi mwy.
- Nad oes data yn bodoli i ddangos faint o dwristiaeth gafodd eu denu i'r ardal ar sail diwylliant yn unig. Credwyd ei fod yn gyfuniad o ffactorau sy'n cynnwys diwylliant, amgylchedd ac atyniadau'r ardal. Yn hytrach mae'r cynllun sydd wedi bod yn cael ei weithredu wedi bod yn canolbwyntio ar geisio ymestyn y tymor fel bod twristiaeth yn ymweld trwy'r flwyddyn ac nid yn unig yn ystod tymor yr haf. Adroddwyd bod hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd y swyddi a'r cyflogau sy'n cael eu cynnig yn y sector. Ychwanegwyd bod Hafan y Môr bellach yn cynnig cytundebau blynyddol yn hytrach na tymhorol fel bod y staff yn cael cyflog trwy'r flwyddyn. Ategwyd fod yr Adran yn ceisio canolbwyntio ar dwristiaeth ddiwylliannol sydd yn dueddol o yn ymweld allan o dymor ac yn edrych ar gryfhau gwerthu diwylliant Cymreig fel atyniad ynddo ei hun.
- Adroddwyd nad yw'r Cyngor Celfyddydau wedi bod yn gwrthwynebu prosiectau ond yn hytrach wedi bod yn blaenoriaethu adnoddau a heb fod yn hyrwyddo.

Credwyd fod cyfle yma i ddylanwadu, nodwyd bod yr Adran yn cydweithio ac eisoes wedi cychwyn tynnu eu sylw i'r cyfleoedd maent yn ei golli.

#### **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

### **8. DIWEDDARIAD AR WAITH HUNANIAETH – MENTER IAITH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu. Darparwyd trosolwg o waith a blaenoriaethau Hunaniaeth, Menter Iaith Gwynedd. Cyfeiriwyd at yr adroddiad sydd yn manylu ar brosiectau amrywiol y fenter a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Anogwyd yr Aelodau i wylio'r fideos gan gyfeirio at y fideo ymwybyddiaeth iaith; gellir gweld y dolenni cyswllt ar gyfer y fideos yn yr adroddiad.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau holi ymhellach:

- Holwyd ynghylch y meddylfryd o symud Hunaniaeth oddi wrth y Cyngor.
- Cyfeiriwyd ar y fideo ymwybyddiaeth iaith gafodd ei greu gan y tîm Hunaniaeth oedd yn cyfeirio at y saith peth pwysig am hanes Cymru; credwyd fod y fideo yn wych ac yn adnodd pwerus. Cadarnhawyd bod fersiwn efo is-deitlau Saesneg o'r fideo hefyd ar gael.

Eglurwyd bod y grŵp strategol yn awyddus i Hunaniaeth fod yn enbyd fwy annibynnol oddi wrth y Cyngor ac y byddai manteision i hynny, nodwyd bod llawer o Fentrau iaith eraill yn fentrau cymunedol. Ychwanegwyd y byddai'n rhaid sicrhau cynaliadwyedd y fenter i'r dyfodol. Bydd diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor yn ystod y tymor newydd.

#### **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

### **9. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith oedd yn nodi'r cwynion yn ogystal â'r enghreifftiau o lwyddiant wrth hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Cyngor.

Soniwyd am y datblygiadau diweddar gan gyfeirio at y sesiynau ymwybyddiaeth iaith i staff y Cyngor sydd wedi ail ddechrau yn rhithiol yn ddiweddar. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu rhedeg gan yr Ymgynghorydd Iaith a'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg ac wedi derbyn adborth positif iawn; bydd y sesiynau yn parhau ac yn cael eu cynnig i fwy o Adrannau ar draws y Cyngor.

Cyfeiriwyd at y cwynion gan sôn am y dyfarniad diweddar yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch gofynion iaith hysbyseb swydd y Prif Weithredwr. Adroddwyd bod camau gweithredu bellach wedi eu cymryd gan bwysleisio nad oedd yr achos na'r dyfarniad hwn yn adlewyrchiad o drefniadau arferol y Cyngor. Manylwyd ar yr amodau newydd sydd bellach mewn lle fel rhan o'r polisi recriwtio; bydd yr amodau hynny yn cael eu hychwanegu at y polisi iaith. Golyga hyn y bydd y gofynion iaith yn cael eu nodi yn glir bob tro.

Adroddwyd ar rai o ymholiadau diweddar, rhai yn rhan o ymholiadau cenedlaethol ehangach; gellir gweld manylion yn yr adroddiad. Soniwyd hefyd am y dair cwyn gafodd



eu derbyn yn ymwneud â pholisi iaith y Cyngor; un o ganlyniad i faterion TG sydd yn y broses o geisio cael eu datrys a gwaith pellach ar y gweill i fynd i'r afael a'r mater. Nid oedd un cwyn yn berthnasol i'r Cyngor am nad oedd gan y Cyngor rym i orfodi ar faterion iaith busnesau yn y sector breifat. Datryswyd y gwyn olaf am bamffled uniaith Saesneg a dderbyniwyd gan y cyhoedd; trefnwyd i gyfieithu'r daflen yn sydyn yn ogystal â gwirio a diweddarau deunyddiau pellach o fewn yr Adran dan sylw.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi ymhellach:

- Tynnwyd sylw fod yr un math o gwynion a materion yn codi eu pennau o gymharu â blynyddoedd eraill.
- Diolchwyd am yr adroddiad.

### **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Cymerwyd y cyfle ar ddiwedd y cyfarfod i estyn cydymdeimlad y Pwyllgor at deulu Aled Roberts, Comisiynydd yr Iaith yn dilyn ei ymadawriad diweddar.

Dechreuodd y cyfarfod am 10yb a daeth i ben am 11:45yb

---

**CADEIRYDD**